# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Bygythiadau i'r Cefnfor

## Gwybodaeth Gefndirol



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Beth sydd ei angen arnom i warchod y cefnfor?

Mae'r cefnfor yn gorchuddio dros 70% o'r blaned ac mae'n gartref i rai o'r bywyd mwyaf lliwgar, diddorol a hardd yn y byd. Mae'r cefnfor yn system gymorth hanfodol i'n planed, gan chwarae rôl fawr yn y cylched ddŵr, yn darparu ocsigen, storio carbon, rheoli ein hinsawdd a darparu bwyd i filiynau o bobl.

Mae  gweithgarwch dynol wedi bod yn bygwth iechyd ein cefnfor am ganrifoedd a niweidio gallu'r cefnfor i'n cefnogi. Mae un trydedd o boblogaeth y byd yn byw ar bwys y môr, gan roi pwysau enfawr ar ecosystemau arfordirol. Mae cynefinoedd bregus wedi cael eu dinistrio, mae rhywogaethau a oedd yn arfer bod yn gyffredin nawr mewn perygl ac mae adnoddau arfordirol wedi'u defnyddio. Mae ein moroedd o dan fygythiad ar draws y byd, gydag ecosystemau morol ymhlith y rhai sydd wedi'u hecsbloetio mwyaf ar y blaned. Efallai gan fod y cefnfor mor anferth, rydym yn tanbrisio ein gallu i gael effaith arno fe.

**Bygythiadau**

**Sbwriel Morol** - Mae 80% o sbwriel morol yn dod o ffynonellau ar y tir, ac mae ein cymdeithas wastraffus yn cael effaith niweidiol ar fywyd morol. Mae 60-90% o sbwriel morol yn cael ei wneud o eitemau plastig a all gymryd gannoedd o flynyddoedd i ddadfeilio. Gall anifeiliaid gael eu dal yn sbwriel, gan achosi anafiadau, llai o symudedd a marwolaeth hyd yn oed. Mae bwyta sbwriel, yn enwedig plastig yn broblem enfawr i fywyd morol nad yw'n gallu ei dreulio. Mae defnyddwyr a busnesau yn dechrau newid eu hymddygiad i leihau bygythiad llygredd plastig, ond rydym yn dal i fod ymhell i ffwrdd o le y mae angen i ni fod.

**Llygredd Cemegol** - Mae sawl math  o lygryddion anweledig sy'n achosi niwed i'r cefnfor. Mae carthion yn mynd i mewn i'r cefnfor naill ai wedi'u trin o weithfeydd trin dŵr gwastraff neu heb eu trin o draeniau. Mae cemegau niweidiol o ffatrïoedd, diwydiannau a hyd yn oed cynhyrchion cartref yn cael eu harllwys i afonydd gan gyrraedd y cefnfor yn y pendraw. Mae dŵr ffo amaeth sy'n cyrraedd y cefnfor yn cynnwys plaladdwyr a chemegau eraill a allai achosi gordyfiant algâu, gan leihau'r ocsigen sydd ar gael a niweidio bywyd morol. Gall cemegau gwenwynig adeiladu mewn cadwyni bwyd gan achosi niwed i amrywiaeth o fywyd morol. Oherwydd symudedd y cefnfor, gall llygryddion cemegol deithio mewn ceryntau cefnforol ac wedi cael eu canfod mewn ardaloedd yn y cefnfor filltiroedd i ffwrdd o weithgarwch dynol.

**Newid Hinsawdd – Mae gweithgareddau dynol yn cynhyrchu lefelau uchel o** $CO_2$ a nwyon tŷ gwydr eraill, gan arwain at newid hinsawdd. Mae'r cefnfor yn amsugno'r allyriadau niweidiol hyn ac mae'i dymheredd yn codi. Mae ecosystemau morol yn sensitif i'r lleiaf o newidiadau i'w hamgylchedd. Mae tymereddau cynyddol yn achosi riffiau cwrel i golli lliw a marw a rhywogaethau i newid eu llwybrau mudo naturiol. Mae asideiddio'r cefnfor (sydd wedi'i achosi gan gynnydd mewn $C0_2$ sy'n effeithio ar gemeg y cefnfor) yn effeithio ar rywogaethau sydd â sgerbydau calsiwm carbonad, megis cregyn cleision a chimychiaid. Mae lefelau môr sy'n codi a mwy o stormydd yn effeithio ar gynefinoedd morol bregus.

**Arferion pysgota anghynaladwy** - Mae biliynau o bobl ar draws y byd yn dibynnu ar fwyd môr ar gyfer eu hincwm a'u bwyd. Fodd bynnag, mae pysgota anghynaladwy yn creu bygythiad enfawr i fioamrywiaeth forol, gan effeithio ar gadwyni bwyd ac yn achosi stociau pysgod i leihau. Mae 90% o stociau pysgod y byd wedi ecsbloetio'n llan neu maen nhw wedi'u gor-ecsbloetio. Gall pysgota dinistriol megis treillio a charthu wneud llawer o niwed i gynefinoedd gwely'r môr Mae gan bysgota

anghyfreithlon ac anrheoledig effaith drychinebus ar yr amgylchedd morol ac mae'n niweidio bywoliaeth pysgotwyr gonest. Mae ffermio pysgod dwys yn achosi llygredd a disbaddiad stociau pysgod gwyllt sy'n cael eu dal drwy eu defnydd o fwyd pysgod sy'n lledaenu afiechydon a pharasitiaid i bysgod gwyllt.

**Masnachu bywyd gwyllt** – Mae rhywogaethau megis morfeirch, morgwn a llyswennod ac yn cael eu dal am eu gwerth yn y farchnad feddyginiaeth draddodiadol, fel swfeniriau glan môr a danteithion megis cawl asgell morgi (*shark fin soup*). Bob blwyddyn mae wedi'i amcangyfrif bod 150 miliwn o forfeirch yn cael eu dal ar gyfer masnachau swfeniriau a meddyginiaeth. Gall morfeirch fel rhywogaeth darfod erbyn 2050. Mae'r llyswennod Ewropeaidd sydd mewn perygl difrifol yng nghanol y drosedd fywyd gwyllt mwyaf yn Ewrop, gyda masnachu anghyfreithlon i Asia yn dod yn ddiwydiant gwerth miliynau o ewros.

**Olew a Nwy** - Gall drilio am olew a nwy achosi bygythiadau difrifol i'r amgylchedd morol, o adeiladau platfformau, cludo nwyddau, creu piblinellau a drwy ollyngiadau olew dinistriol iawn.

**Adeiladu a Charthu -** Yn y cefnfor mae gwaith adeiladu yn digwydd ar gyfer platfformau olew a nwy, tyrbinau gwynt, piblinellau, datblygiadau arfordirol neu echdynnu gwaddodion morol ar gyfer gwaith adeiladu ar y tir. Mae'r rhain i gyd yn achosi niwed i'r amgylchedd morol drwy ddinistrio cynefinoedd a llygredd sŵn.

**Hamdden a thwristiaeth** - Mae 60% o boblogaethau'r byd yn byw o fewn 60km i'r arfordir ac mae llawer o bobl yn defnyddio traethau a dyfroedd arfordirol ar gyfer gweithgareddau hamdden. Gall pwysau o ddatblygiadau a gweithgareddau hamdden achosi niwed i gynefinoedd arfordirol sensitif. Gall gweithgareddau megis mynd mewn cychod achosi niwed drwy ollwng olew a niwed i gynefinoedd wely'r môr drwy angori. Mae cynefinoedd arfordirol naturiol yn cael eu dinistrio i wneud lle am ddatblygiadau. Mae hyn nid yn unig yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth, ond mae hefyd yn lleihau'r swyddogaethau hanfodol mae'r cynefinoedd hyn yn eu darparu, megis helpu i amddiffyn tir rhag erydu a helpu i hidlo dŵr ffo maetholion o'r tir.

**Llongau** -Mae llawer o'n nwyddau masnachol yn cael eu trosglwyddo ar draws y byd gan ein diwydiant llongau. Mae'r diwydiant hwn yn gysylltiedig ag achosi llawer o lygredd drwy allyriadau, gollyngiadau olew, gollyngiadau cynwysyddion, gwaredu sbwriel yn y môr a llygredd cemegol drwy baent gwrth-baeddu. Mae llongau hefyd yn achosi niwed drwy angori, llongddrylliadau, llygredd sŵn, cysylltiad uniongyrchol ag anifeiliaid morol mawr a symudiad rhywogaethau ymledol drwy ddŵr balast.

### Rheoli bygythiadau i'r amgylchedd morol

Mae rheoli gweithgareddau yn yr amgylchedd morol yn holl bwysig er mwyn gwarchod iechyd dyfodol y cefnfor, ond mae'n dasg eithriadol o anodd. Mae llawer o randdeiliaid sydd â barn anghyson, gan gynnwys llywodraethau, diwydiannau masnachol, pysgotwyr ar raddfa fawr a bach, diwydiannau twristiaid, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, y gymuned wyddonol a phobl sy'n byw ar yr arfordir. Mae'r cefnfor yn ofod enfawr ac mae rheoli gweithgareddau ynddo yn anodd yn logistaidd ac yn ariannol.

**Rheoli ar sail ecosystemau -** Mae rheoli ar sail ecosystemau yn ddull integredig i reoli adnoddau'r cefnfor. Yn hytrach nag ystyried un mater, rhywogaeth neu ecosystem, mae'r math hwn o reoli yn

ceisio diogelu'r amgylchedd wrth barhau i gefnogi cymunedau a'r economi. Mae'n bwysig bod gwahanol ddefnyddwyr y môr yn deall sut mae eu rhyngweithio â'r môr yn effeithio ar ei amgylchedd. Drwy ddeall y rhyngweithio hwn yn well, gall defnyddwyr fod yn fwy parod i ragweld risg a gweithio i ddileu unrhyw niwed i'r cefnfor. Mae rheoli ar sail ecosystemau hefyd yn ymwneud ag asesu'r effeithiau cronnol ar y cefnfor. Mae angen i ddefnyddwyr o sectorau gwahanol gydweithio â'i gilydd i gynyddu gwybodaeth a sicrhau cynaliadwyedd adnoddau'r cefnfor.

**Ardaloedd Gwarchodedig Morol -** Mae Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn gweithredu fel gwarchodfeydd natur, gan ddiogelu rhywogaethau bregus penodol neu gynefinoedd cyfan oherwydd eu

pwysigrwydd fel meysydd bridio neu fwydo. Mae llawer o fathau o ardaloedd tebyg i Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn y DU, gan gynnwys: Ardaloedd Gwarchodedig Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Parthau Cadwraeth Forol neu safleoedd RAMSARR. Mae gan Ardaloedd Gwarchodedig Morol y gallu i leihau gweithgaredd dinistriol a diogelu ac adfer bioamrywiaeth. Ond er mwyn i Ardaloedd Gwarchodedig Morol i weithion effeithiol, mae angen rhwydwaith o safleoedd ar draws y DU, gan fod rhywogaethau morol yn symudol. Mae llawer o'r dynodiadau'n enwau yn unig ac mae gweithgareddau dinistriol yn dal i ddigwydd yn yr ardaloedd hyn. Mae angen rheoli a gorfodi Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn well, ac mae angen i ni gynyddu nifer yr ardaloedd gwarchodedig morol arbennig / parthau gwarchodedig lle mae pob gweithgaredd niweidiol yn cael eu gwahardd.

**Adfer -** Mae prosiectau adfer yn anelu at adfer cynefinoedd drwy waith cadwraethol. Er enghraifft, mae mentrau megis y Prosiect Morwellt yng Nghymru a'r *Remedies project* yn Dde-orllewin Lloegr yn adfer gwelyau morwellt drwy gasglu a thyfu'r hadau hyn yn y dyfroedd arfordirol ar safleoedd addas.

**Deddfwriaeth, Cyfreithiau a Thrwyddedau** - Mae deddfwriaeth a chyfreithiau yn ei lle i leihau bygythiadau. Mae llawer o weithgareddau angen trwyddedau ac mae'n rhaid i ddiwydiannau morol megis carthu ac adeiladu basio sawl meini prawf amgylcheddol cyn iddynt gael trwydded.

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13